

Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Dyletswydd Ansawdd

## Ein Canllawiau a'n Safonau



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd 2023 a Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023, yn seiliedig Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020'.

Ebrill 2023

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 33**.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen hyn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:**

[Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd 2023](#)

**E-bost:** [HSCQualityandEngagement@gov.wales](mailto:HSCQualityandEngagement@gov.wales)



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

[Rhif trwydded Photosymbols 403527247](#)


# Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Strategaeth a Pholisi.....	7
Beth mae Ansawdd yn ei feddwl? .....	14
Galluogwyr ansawdd .....	16
Safonau ansawdd .....	21
Cwrdd â Dyletswydd Ansawdd.....	23
Dweud wrthyh chi sut mae pethau'n mynd .....	27
Gwneud penderfyniadau a gwirio.....	30
Yr Iaith Gymraeg.....	32
Geiriau anodd .....	33

# Cyflwyniad




Yng Nghymru rydyn ni wedi gwneud deddf newydd i wneud Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn well.



Mae hon yn cael ei galw'n **Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Answdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.**



Mae'r ddeddf newydd hon yn gwneud lleisiau pobl yn fwy pwysig pan fydd ar y llywodraeth a'r GIG eisiau gwneud newidiadau.



Mae'r ddogfen hon yn dweud wrth y GIG sut i gwrdd â'r **Ddyletswydd Ansawdd.**



Mae **Dyletswydd Ansawdd** yn meddwl y ffordd y mae gan fudiad, bach neu fawr, gyfrifoleb cyfreithiol i ceisio gwella safon gwasanaethau.

Mae'r **Ddyletswydd Ansawdd** yn gofyn i Lywodraeth Cymru a'r GIG weithio mewn ffordd sy'n:



- gwrando ar bobl a chleifion



- yn gwneud gwell penderfyniadau



- yn **canolbwyntio ar yr unigolyn**

Mae **canolbwyntio ar yr unigolyn** yn meddwl cynnwys y person ym mhob rhan o'r cynllunio ar gyfer ei fywyd.



- yn rhoi'r gofal iawn i bobl pan fydd ei angen arnyn nhw



- yn ddiogel ac effeithiol



- yn rhoi'r un lefel o ofal diogel i bob claf.



Mae gwneud gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well yn beth iawn i'w wneud.



Mae'r ddogfen ganllawiau hon yn egluro sut y gallan nhw ei gwneud yn well.



Bydd arnon ni angen cadw llygad i weld a yw'r newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth.



A bydd ar y GIG a'r llywodraeth angen dangos sut y maen nhw wedi gwneud pethau'n well.



I wneud hyn byddan nhw'n ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn sy'n dweud wrth bobl sut roedden nhw wedi gwrando ar y Ddeddf hon.

# Strategaeth a Pholisi



Cymru Iachach: ein cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw ein cynllun i wneud pethau'n well mewn iechyd a gofal cymdeithasol.



Mae'n dweud sut y mae ar Lywodraeth Cymru eisiau gwneud pethau'n well.



Ac mae'n rhestru'r gwerthoedd y dylai'r GIG eu dilyn. Y gwerthoedd yw:



- Mae ansawdd a diogelwch yn bwysig iawn.



- Gwneud pethau'n well bob dydd.




- Canolbwyntio ar rwystro'r angen am ofal, gwneud gofal yn well ac ar gael i bawb.



- Gweithio ynghyd â phobl eraill.



- Gwneud pethau'n dda i'n staff.



Mae **Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020** yn helpu i gefnogi Cymru Iachach yn ogystal â pholisiau eraill sy'n ymwneud â iechyd.



Mae hefyd yn gofyn i'r GIG reoli'r ffordd mae'n gweithio.



Mae'n dweud bod yn rhaid i'r GIG ddysgu o'r hyn maen nhw'n wneud, i wneud ansawdd y gwasanaethau'n well.



## Ar gyfer pwy mae'r ddeddf?



Y bobl ddylai ddilyn y ddeddf yw:

- Gweinidogion Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Awdurdodau Iechyd Arbennig sy'n gweithio yng Nghymru yn unig.

## Dyletswydd Ansawdd a Gweinidogion



Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd mewn trefn ac yn gweithio i wneud pethau'n well.



Mae'n rhaid iddyn nhw feddwl am wneud pethau'n well pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau.



Mae'n rhaid iddyn nhw roi arweiniad i'r GIG fel eu bod yn gwybod beth y mae arnyn nhw angen gweithio tuag ato.



Mae'n rhaid iddyn nhw ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn i ddweud pa gamau y maen nhw wedi eu cymryd i wneud pethau'n well.

## Dyletswydd Ansawdd a'r GIG



Mae'r GIG yng Nghymru yn cyflenwi gwasanaethau ar draws saith bwrdd iechyd lleol a thair ymddiriedolaeth y GIG.



Mae'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethu hyn hefyd yn gweithio gydag [Addysg a Gwella Iechyd Cymru \(AaGIC\)](#) and [Iechyd and Gofal Digidol Cymru \(IGDC\)](#).



Mae rhai byrddau iechyd lleol hefyd yn gweithio gyda mudiadau eraill.



Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr o hyd eu bod yn gwneud penderfyniadau sy'n gwneud pethau'n well.

Mae **Dyletswydd Ansawdd** ar gyfer byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am:



- Wneud canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol yn well.



- Hyrwyddo lles.



- Creu **hygyrchedd** i bawb.

Mae **hygyrchedd** yn meddwl gwasanaethau sy'n hawdd i bawb ddod i wybod amdany'n nhw, eu cyrraedd a'u defnyddio.



- **Comisiynu** gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion pobl.

**Comisiynu** yw'r broses o brynu, trefnu, a chynllunio gwasanaethau i gwrdd ag anghenion pobl.



Mae Prif Weithredwyr Cyrff y GIG yn gyfrifol am wneud penderfyniadau sy'n gwneud pethau'n well.

I'w helpu, dylai Prif Weithredwyr ddewis:



- **Uwch-swyddogion arweiniol** – pobl sy'n gyfrifol am wneud newidiadau sydd eu hangen i wella ansawdd.



- **Arweinydd gweithredol dynodedig** – person sy'n gofalu am oruchwylio'r Ddyletswydd yn eu gwasanaethau.



Mae Byrddau ym mhob corff y GIG yn gyfrifol hefyd am wneud yn siŵr bod **Dyletswydd Ansawdd** yn cael ei dilyn.



Pan fydd **Byrddau Iechyd Lleol** yn talu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG i ddarparu gwasanaethau, mae'r **Ddyletswydd Ansawdd** yn berthnasol i'r GIG, nid y darparwr gwasanaeth nad yw'n rhan o'r GIG.



Ond ar adegau fel hyn, mae'r Bwrdd Iechyd, neu Ymddiriedolaeth y GIG, sy'n gofalu am ddarparu'r gwasanaethau, yn gyfrifol am y **Ddyletswydd Ansawdd**.

Mae'n rhaid i'r GIG a staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ym maes iechyd ddilyn **Dyletswydd Ansawdd** pan fyddan nhw'n:



- Prynu gwasanaethau ac offer.



- Cyflogi mudiadau eraill i wneud gwaith ar eu cyfer.



- Gweithio gyda mudiadau partner. Er enghraifft, elusennau a mudiadau gwirfoddol.

# Beth mae Ansawdd yn ei feddwl?

Pan fyddwn ni'n siarad am ansawdd mewn gwasanaethau iechyd, rydyn ni'n meddwl cwrdd ag anghenion iechyd pawb:



- **Yn ddibynadwy** - Bob tro



- **Yn gyson** - Drwy'r amser



- **Yn gynaliadwy** - Mewn ffyrdd y gallwn ni gadw ochr yn ochr â phethau

**Mae gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd da:**



1. Yn ddiogel



2. Yn cael eu rhoi ar yr adeg iawn



3. Yn effeithiol



4. Wedi'u trefnu'n dda



5. Yn deg



6. Yn **canolbwyntio ar yr unigolyn**



Rydyn ni'n galw'r rhain yn **6 maes ansawdd**. Mae gennym ni'r **6 maes** sy'n dangos i ni beth yw gofal iechyd o ansawdd da.

Mae **maes** yn ardal arbennig neu'n bethau y mae arnon ni eisiau er mwyn cael gofal iechyd o ansawdd da.

# Galluogwyr ansawdd

Rydyn ni'n meddwl bod yn rhaid i wasanaethau iechyd o ansawdd da gael eu cefnogi gan:




- **Arweiniad**
- **Gweithwyr**
- **Diwylliant**
- **Gwybodaeth**
- **Dysgu a gwelliant**
- **Persbectif systemau cyfan**



Mae **persbectif systemau cyfan** yn meddwl edrych ar holl wasanaethau iechyd a gofal gyda'i gilydd. Mae'n meddwl y ffordd y mae pob gwasanaeth yn cysylltu a'i gilydd, a chynllunio a gwneud penderfyniadau fyddai'n gwneud pethau'n well ar draws yr holl system iechyd a gofal.





Rydyn ni'n galw'r 6 peth hyn yn **alluogwyr ansawdd**. Mae arnon ni eu hangen i wneud pethau'n well. Rydyn ni wedi disgrifio beth mae bob un yn feddwl isod.



Weithiau gall un peth effeithio ar beth arall pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.

## Arweiniad



Mae gan y mudiad nodau ac amcanion clir.



Mae gan arweinwyr a rheolwyr ragolwg tymor hir. Maen nhw'n gwybod sut i reoli a threfnu er mwyn cyrraedd y nodau a'r amcanion.



## Gweithwyr

Mae ein staff yn hyderus ac yn fedrus i roi gofal diogel.



Rydyn ni'n gwerthfawrogi ein staff, ac fe ddylen nhw deimlo'n ddiogel ac yn hapus yn y gwaith.



Fe ddylen nhw gael y pethau sydd eu hangen arnyn nhw i wneud gwaith da, gan gynnwys offer a hyfforddiant.



## Diwylliant

Mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd i wella ansawdd.



Maen nhw'n teimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi.



Gallan nhw rannu syniadau a dweud wrth bobl os ydyn nhw'n poeni am rywbeth.

## Gwybodaeth



Rydyn ni'n casglu data ac yn gwneud synnwyr ohono.



Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth â'r rhai hynny sydd ei hangen.



Rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth i ddeall ein gwasanaethau'n well, i ddysgu, gwneud penderfyniadau a gwella ansawdd.

## Dysgu, gwelliant, ac ymchwil



Rydyn ni'n cefnogi pobl i ddysgu a rhoi gwasanaethau o well ansawdd a gwell canlyniadau ar gyfer pobl.



Rydyn ni'n cymryd rhan mewn ymchwil ac yn defnyddio y pethau rydyn ni wedi'u dysgu i wella gwasanaethau.

## Persbectif systemau cyfan



Rydyn ni'n edrych ar beth sy'n mynd ymlaen ar draws ein mudiad i gyd.



Rydyn ni'n talu sylw i beth sy'n digwydd y tu allan i'n mudiad.



Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid ar draws Cymru i wella'r holl system gofal iechyd.

# Safonau ansawdd



Mae gennym ni'r 6 **maes** sy'n dangos i ni beth yw gofal iechyd o ansawdd da. Y chwech maes yw:

1. Diogel
2. Ei roi ar yr adeg iawn
3. Effeithiol
4. Wedi'i drefnu'n dda
5. Teg
6. **Canolbwyntio ar yr unigolyn**



Ac mae gennym ni **6 galluogwr ansawdd** – y pethau sydd eu hangen arnon ni i gyrraedd y 6 **maes**.



Mae'r 6 **maes** a'r **6 galluogwr ansawdd** yn syniadau mawr ar gyfer disgrifio, cefnogi, a gwirio ansawdd.



Gyda'i gilydd, bydd y 6 **maes** a'r 6 **galluogwr ansawdd** yn cael eu galw'n **Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023**.



Mae arnon ni eisiau i'r **Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023** newydd gymryd lle'r hen **Safonau Iechyd a Gofal 2015**.



Rydyn ni hefyd yn mynd i ddefnyddio'r datganiadau ansawdd, sy'n ofynnol gan **Cymru Iachach**.



Bydd gwasanaethau'r GIG yn cael eu trefnu mewn ffordd sy'n dilyn y safonau ansawdd a'r datganiadau ansawdd.



Bydd y 6 **maes**, y 6 **galluogwr ansawdd** a'r **datganiadau ansawdd** i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i'n helpu i wella ansawdd.

# Cwrdd â Dyletswydd Ansawdd

Mae 6 cam y gall y GIG eu cymryd i gynllunio, i roi ar waith a gwneud pethau'n well:

## 1. Gwneud yn siŵr bod y Bwrdd yn cefnogi gwaith i wella ansawdd



Mae'r Bwrdd yn gosod yr holl nodau ac amcanion ar gyfer y gwasanaeth. Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn fodlon rhoi amser ac arian i mewn i waith i wella gwasanaethau.



Mae arnyn nhw angen gwneud yn siŵr eu bod yn cadw at **Ddyletswydd Ansawdd** pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau.


## 2. Gwneud yn siŵr eu bod yn barod i ddilyn Dyletswydd Ansawdd



Bydd ar fudiadau angen edrych ar wasanaethau, a mesur canlyniadau i ddeall beth yw eu gwendidau a ble mae bylchau mewn ansawdd.



Mae'n rhaid iddyn nhw feddwl a yw tîm eu staff yn barod i wneud y newidiadau sydd eu hangen.



Hefyd mae'n rhaid iddyn nhw feddwl a yw'r cynlluniau a'r drefn iawn wedi'u gosod yn eu lle i gynnal newid.

### 3. Cael cefnogaeth gan bobl eraill sy'n gweithio yn y mudiad



Dylai bod cynllun clir ar gyfer gwella ansawdd.



Dylai staff deimlo'n frwdfrydig i wella ansawdd. Dylai bod rolau arweiniad ar wahanol lefelau o'r mudiad.



Dylai staff gael y cyfle a'r hyder i roi cynnig ar syniadau newydd. Dylai arweinwyr ganmol timau staff sy'n gwneud yn dda.



#### 4. Datblygu medrau ac adnoddau



Dylai bod systemau da wedi'u gosod yn eu lle i reoli gwelliannau.




Dylai timau gael y lefel iawn o fedrau i gwrdd â galwadau newidiadau.



Dylen ni gael ffyrdd o fesur gwelliannau. Dylen ni i gyd weithio yn yr un ffordd er mwyn i ni i gyd roi'r un lefel o ansawdd ar waith.

#### 5. Cytuno ar gynllun gweithredu



Dylai syniadau a newidiadau i wella ansawdd gael eu cysylltu â'r holl gynlluniau a'r amcanion ar gyfer y mudiad.



Dylai arweinydd edrych i weld a yw cynlluniau ac amcanion y mudiad i gyd yn gweithio gyda'i gilydd.



A dylen nhw wneud yn siŵr eu bod yn dysgu o'r pethau sy'n gweithio'n dda a'r pethau sydd ddim yn gweithio'n dda.

## 6. Cefnogi'r mudiad



Mae'n rhaid i'r Bwrdd roi amser ac arian i wella pethau.



Mae arnon ni angen cadw staff yn frwdfrydig a chanmol pethau sy'n mynd yn dda gan gefnogi staff i ganolbwyntio ar weithio drwy'r amser i wella ansawdd.

# Dweud wrthyich chi sut mae pethau'n mynd



Bydd ar Weinidogion Llywodraeth Cymru angen dweud wrthyn ni sut mae pethau'n mynd mewn adroddiad bob blwyddyn.



Mae'n rhaid i'r adroddiad ddweud sut y mae'r penderfyniadau y maen nhw wedi'u cymryd wedi gwella ansawdd gwasanaethau iechyd.



Mae'n rhaid i'r Gweinidogion ddangos yr adroddiad i'r Senedd.



Mae'n rhaid i fudiadau'r GIG ysgrifennu adroddiad hefyd i ddweud sut y maen nhw wedi dilyn y **Ddyletswydd Ansawdd.**



Mae'n rhaid iddyn nhw adrodd sut y mae'r pethau hyn yn mynd. Byddan nhw'n gwneud hyn trwy:

## 1. Ysgrifennu'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol



Mae'n rhaid iddo gael ei ysgrifennu bob blwyddyn.



Mae'r adroddiad hwn yn grynodedb o:

- beth sydd wedi digwydd
- beth aeth yn dda
- beth wnaeth ddim gweithio'n dda
- beth maen nhw wedi'i ddysgu
- beth maen nhw'n bwriadu ei wneud yn well yn y flwyddyn nesaf.

## 2. Rhoi adroddiad



Mae hyn yn meddwl casglu, gwirio, a gwneud gwybodaeth am ansawdd y gwasanaethau ar gael i bobl yn aml, trwy gydol y flwyddyn.



Dylen nhw ddefnyddio'r wybodaeth yn eu hadroddiadau sy'n dangos sut y maen nhw wedi:

- Dilyn y **Ddyletswydd Ansawdd** wrth wneud penderfyniadau.
- Gwneud newidiadau sy'n cyd-fynd â'r pethau da maen nhw wedi'u dysgu.
- Gwneud gwelliannau i ansawdd.
- Gwella canlyniadau pobl



Dylai'r mudiadau ddefnyddio gwahanol ddarnau o dystiolaeth a gwahanol ffyrdd o wirio sut y maen nhw wedi cwrdd â'r **Ddyletswydd Ansawdd**.


# Gwneud penderfyniadau a gwirio



Mae'r **Ddyletswydd Ansawdd** yn dweud bod yn rhaid i Weinidogion Cymru a mudiadau'r GIG feddwl beth sy'n dda ar gyfer pobl yn eu hardal.



Mae'n rhaid iddyn nhw gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd wrth wneud penderfyniadau.




Ac mae'n rhaid iddyn nhw feddwl am **Ddyletswydd Ansawdd** yn awr ac yn y dyfodol.



Mae'n **rhaid** i Fyrddau wneud yn siŵr eu bod yn meddwl am **Ddyletswydd Ansawdd** ym mhob proses a system. Ac wrth wneud pob penderfyniad.



Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod gwaith tuag at y **Ddyletswydd Ansawdd** yn cael ei wirio.



Dylai pobl feddwl amdani o fewn systemau sydd wedi'u gosod yn eu lle yn barod.



A dylai gael ei gwneud yn rhan o bob system a chynllun newydd wrth fynd ymlaen.



Bydd **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** hefyd yn meddwl am y **Ddyletswydd Ansawdd** wrth wirio gwasanaethau iechyd.

# Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg

English



Dylai gwasanaethau iechyd gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg.



Dylai pobl gael cynnig dewis pa iaith i'w ddefnyddio.



Nid yw'r GIG wedi bod yn dda am ddefnyddio'r Gymraeg yn y gorffennol.



Mae'n rhaid i'r iaith hefyd Gymraeg gael ei defnyddio mewn adroddiadau ansawdd.



# Geiriau anodd

## Canolbwyntio ar yr unigolyn

Mae canolbwyntio ar yr unigolyn yn meddwl cynnwys y person ym mhob rhan o'r cynllunio ar gyfer ei fywyd.

## Comisiynu

Comisiynu yw'r broses o brynu, trefnu, a chynllunio gwasanaethau i gwrdd ag anghenion pobl.

## Hygyrchedd

Mae hygyrchedd yn meddwl gwasanaethau sy'n hawdd i bawb ddod i wybod amdany'n nhw, eu cyrraedd a'u defnyddio.

## Meysydd

Mae maes yn ardal arbennig neu'n bethau y mae arnon ni eisiau er mwyn cael gofal iechyd o ansawdd da.

## Persbectif systemau cyfan

Mae persbectif systemau cyfan yn meddwl edrych ar holl wasanaethau iechyd a gofal gyda'i gilydd. Mae'n meddwl y ffordd y mae pob gwasanaeth yn cysylltu â'i gilydd. Ac mae'n meddwl cynllunio a gwneud penderfyniadau fyddai'n gwneud pethau'n well ar draws yr holl system iechyd a gofal.